**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD IAU, 5ed o FEHEFIN 2014**

**THURSDAY, 5th of JUNE 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

**2:00pm**

**(Aelodau'r Is-Bwyllgor yn unig i gyfarfod ger 'The Boatyard Inn', Ffordd y Garth, Bangor, LL57 2SF am 11:00am)**
**(Sub-committee members only to meet at 'The Boatyard Inn', Garth Road, Bangor LL57 2SF at 11:00am)**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 28.5.14*

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Peter Read

Huw Edwards

Ann Williams (wrth gefn)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Lesley Day

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED EIDDO:**

   **'THE BOATYARD, FFORDD Y GARTH, BANGOR,**

   **Ystyried y cais uchod**
   **(papur glas)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **5 MEHEFIN 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE BOATYARD INN, FFORDD GARTH, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Cyflwynwyd cais i adolygu trwydded eiddo The Boatyard Inn, Ffordd Garth, Bangor i'r awdurdod trwyddedu ar 16 Ebrill, 2014 gan Gynghorydd Dinas Bangor, June Marshall, sy'n cynrychioli ward Garth. Mae copi o'r cais ar gael yn Atodiad 1.

Mae'r cais i adolygu'r drwydded eiddo yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu a ganlyn:
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Yn unol â'r ddogfen gais, dyma resymau'r ymgeisydd am yr adolygiad:
- Sŵn ar adegau anghymdeithasol wrth i bobl adael y dafarn yn hwyr yn y nos.
- Sŵn ac ymddygiad anghymdeithasol y cwsmeriaid sy'n dod o'r tair ardal eistedd y tu allan.
- Cerddoriaeth yn tarfu.

Mae'r ddogfen gais yn rhoi gwybodaeth fanwl ac yn rhestru cofnodion o ddigwyddiadau anghymdeithasol ac aflonyddwch yn yr eiddo o fis Mehefin 2012 hyd at fis Mawrth 2014. Darparwyd tystiolaeth ffotograffig a fideo i gefnogi'r wybodaeth hon.

Mae'r ymgeisydd yn gofyn i'r drwydded gael ei haddasu i atal y sŵn a'r aflonyddwch cyson sy'n parhau i darfu ar y trigolion lleol ar adegau anghymdeithasol.

## HANES Y DRWYDDED EIDDO

Cymeradwywyd y drwydded eiddo gyntaf ar 24 Tachwedd 2005, ac enw'r eiddo ar y pryd oedd The Union Tavern. Ym mis Gorffennaf 2006 newidiodd yr eiddo ei enw i The Boatyard Inn. Trosglwyddodd y drwydded eiddo i ddeiliaid trwydded newydd ym mis Awst 2006, mis Tachwedd 2008 ac i'r deilydd trwydded presennol, Miss Hayley Meek, ym mis Tachwedd 2009.

Ers cymeradwyo'r drwydded yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2005, ni wnaed unrhyw amrywiadau i'w horiau agor, y cynllun, y gweithgareddau trwyddedig nac i'r Amodau sy'n cyd-fynd â'i Hatodlen Weithredu. Felly, mae'r drwydded wedi aros fel y cynigwyd gan yr ymgeisydd gwreiddiol yn 2005.

Mae'r gweithgareddau trwyddedig sydd wedi'u hawdurdodi gan y drwydded fel a ganlyn:
- Dramâu, Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do, Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth wedi'i Recordio, Perfformiadau Dawns – Dan Do
- Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos – Dan Do
- Cyflenwi Alcohol – Ar ac Oddi ar yr Eiddo *

* Mae cyflenwi alcohol yn caniatáu yfed alcohol yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo, fodd bynnag, rhaid iddo gael ei gyflenwi oddi mewn i ardal drwyddedig yr eiddo. Ardal drwyddedig y drwydded eiddo ar gyfer y Boatyard Inn yw llawr gwaelod yr eiddo fel y manylwyd yn y cais yn 2005.

Yn Atodiad 2 ceir copi o'r Drwydded Eiddo sy'n dangos y cynllun, yr holl weithgareddau trwyddedig, yr amseroedd a'r Amodau sy'n cyd-fynd â'r Atodlen Weithredu.

## SYLWADAU

Derbyniwyd cyfanswm o 33 o sylwadau ar y cais hwn, ac mae copïau ohonynt ar gael yn Atodiad 3.

### Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd gan Awdurdodau Cyfrifol

**Yr Awdurdod Trwyddedu** – mae sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth fel awdurdod cyfrifol yn rhoi manylion am hanes y cwynion a dderbyniwyd a'r ymweliadau â'r eiddo ers mis Gorffennaf 2013. Nid yw'n glir o'u sylwadau faint o drigolion oedd wedi gwneud yr 11 cwyn. Mae eu sylwadau yn cynnwys copi o boster ac o dudalen Facebook y Boatyard Inn, dyddiedig 5 Tachwedd 2013 (noson tân gwyllt) lle roeddynt yn hysbysebu 'bar y tu allan'. Mae eu sylwadau hefyd yn cynnwys copi o lythyr rhybudd ysgrifenedig a gyflwynwyd i ddeilydd trwydded yr eiddo ar 13 Tachwedd 2013 yn egluro nad yw trwydded eiddo'r Boatyard Inn ond yn berthnasol i lawr gwaelod yr eiddo, ac felly na allai gweithgareddau trwyddedig ddigwydd y tu allan. Cynghorwyd deilydd y drwydded y byddai angen gwneud cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro i ganiatáu gweithgareddau trwyddedig i ddigwydd y tu allan, neu gellid gwneud cais i amrywio'r drwydded eiddo.

**Iechyd yr Amgylchedd** – mae sylwadau'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn rhoi crynodeb o chwe chŵyn a dderbyniwyd gan dri preswylydd rhwng y cyfnod 8 Mehefin 2012 a 1 Mai 2014. Mae'r holl gwynion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ymwneud â niwsans sŵn o'r eiddo.

**Heddlu Gogledd Cymru** – mae sylwadau Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau y gwnaed nifer o alwadau ffôn i'r Heddlu rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mai 2014 ynglŷn â cherddoriaeth uchel yn yr eiddo. Mae'r Heddlu'n argymell y dylid addasu amodau'r drwydded i gynnwys gofynion TCC a Goruchwylwyr drws yn yr eiddo.

Nid oedd **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** yn dymuno gwneud sylwadau ar y cais.

### Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd gan Bobl â Diddordeb

**Gwrthwynebwyr h.y. y rheini sydd o blaid yr adolygiad** – derbyniwyd 14 o sylwadau gan bobl sydd â diddordeb sydd yn byw neu sydd ganddynt deulu sy'n byw yn Ffordd Garth neu Rhes Glandŵr. Derbyniwyd un sylw ychwanegol gan y Cynghorydd Sir lleol ar gyfer Ward Garth. Mae pob sylw a dderbyniwyd yn cyfeirio at niwsans sŵn yn dod o'r eiddo, ac yn enwedig at gerddoriaeth uchel sy'n cael ei chwarae'n hwyr yn y nos yn aml. O'r 15 o sylwadau hyn, roedd 10 yn cyfeirio at y gweithgareddau trwyddedig yn digwydd yn yr ardal tu allan i'r eiddo, ac roedd naw yn cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol y cwsmeriaid, ac yn benodol y rheini yn yr ardal tu allan. Mae sylwadau un preswylydd cyfagos yn cynnwys tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos cerddorion, *amplifiers* a pheiriant *karaoke* yn yr ardal tu allan i'r eiddo.

**Rhai'n cefnogi'r eiddo** – derbyniwyd 14 o sylwadau gan amryw o bobl sydd â diddordeb, gan gynnwys trigolion cyfagos, yn cadarnhau eu cefnogaeth i'r eiddo ac i ddeilydd trwydded yr eiddo. Mae nifer o'r sylwadau yn cynnwys y rheini a wnaed gan drigolion cyfagos sy'n datgan nad ydynt yn cael unrhyw broblemau yn codi o'r eiddo.

**ARGYMHELLIAD**

Mae gofyn i'r is-bwyllgor ystyried y cais a'r holl sylwadau a'r dystiolaeth a ddarparwyd. Gall yr is-bwyllgor gyflwyno rhybudd anffurfiol i ddeilydd y drwydded a/neu argymell gwelliant oddi mewn i gyfnod penodol o amser, neu gall gymryd rhai o'r camau a restrir yn Adran 52 y Ddeddf Trwyddedu 2003 (a restrir isod), os yw'n ystyried bod hynny'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dyma'r camau –
(a) addasu amodau'r drwydded;*
(b) eithrio gweithgaredd trwyddedig o sgôp y drwydded;*
(c) cael gwared ar y goruchwyliwr eiddo dynodedig;
(d) atal y drwydded am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis;
(e) diddymu'r drwydded.

*gall addasu amodau neu eithrio gweithgaredd trwyddedig fod mewn grym am gyfnod a bennir gan yr is-bwyllgor, cyn belled nad yw'n hwy na thri mis.